

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Glyn Haynes
Grŵp: Llafur Cymru

Ward: Caergybi

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Cyngor	9	9
Pwyllgor Penodiadau	9	6
Pwyllgor Trwyddedu	1	1
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	6	4
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	11	9
Cyngor Ymgynghori Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	2	1

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 5 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Hefyd rwyf yn aelod o Bwyllgor Grantiau'r Ymddiriedolaeth a ddim wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru	5	3
Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Llanfawr	3	2

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rydw i wedi mynychu nifer o gymorthfeydd yng Nghaergybi gan gynnwys gydag Albert Owen AS. Rwy'n ceisio, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, cydweithio'n agos â'r ddau gyd-gyngorydd arall sydd gennyf yn Ward Caergybi a gyda chynghorwyr o wardiau eraill, yn enwedig Ynys Gybi, lle mae gennym ddiddordeb ar y cyd. Yn amlwg, ni allaf fynd i fanylder oherwydd cyfrinachedd a'r niferoedd perthnasol ond rydw i wedi cynorthwyo nifer o bobl yn fy etholaeth gyda materion sy'n eu heffeithio'n bersonol a byddaf bob amser yn ceisio dod yn ôl gydag ateb, hyd yn oed os nad yw'n ateb maent yn dymuno ei glywed.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn dilyn y trychineb ym Mhorthladd Caergybi yn dilyn Storm Emma, rydw i wedi cyfarfod â phobl sydd wedi colli eu cychod a'u bywoliaeth o ganlyniad i'r storm a hefyd wedi mynychu cyfarfod o ddefnyddwyr Porthladd Caergybi a sefydlwyd er mwyn cynorthwyo unigolion a grwpiau a effeithiwyd arnynt gan y storm.

Rydw i hefyd wedi defnyddio fy nghefnidir Undebau llafur, fy ngwybodaeth a'm cysylltiadau er mwyn cydweithio'n agos â'r Cyngor a'm cyd-gynghorwyr i sefydlu grŵp a fydd yn cydweithio ar brosiect mawr a fydd yn elwa ein hynys, mae'n ddyddiau cynnar i'r prosiect hwn ar hyn o bryd.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	11/05/2017
Hyfforddiant IPad	12/05/2017
Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	18/05/2017
Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côt	18/05/2017
Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys	25/05/2017
Diogelu Sylfaenol	01/06/2017
Hyfforddiant Cynllunio	01/06/2017
Rhoddion, Lletygarwch a Datganiadau o Ddiddordeb	02/06/2017
Y Cyfansoddiad	05/06/2017
Deddf Tai	06/07/2017
Hyfforddiant Materion Cynllunio	21/07/2017
Cwestiynu effeithiol yn Sgriwtini	04/12/2018
Cyflwyniad i e-ddysgu	16/01/2018
Cyflwyniad i e-ddysgu	16/01/2018
Hyfforddiant materion Cynllunio	05/03/2018
Hyfforddiant ACE	28/03/2018
Sesiynau Briffio Aelodau (10 allan o 12)	Mai 2017 – Mawrth 2018
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.</i>	

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Credaf, dros fisoedd y gaeaf, mai un o'r prif bryderon i fodurwyr, beicwyr a cherddwyr yng Nghaergybi oedd y nifer o dyllau a ymddangosodd yn y ffordd. Gan weithio'n agos â Darren Owen o'r adran briffyrdd, cafodd y tyllau hynny y cefais fy hysbysu amdanynt, neu'r rhai hynny a welais fy hun, eu delio â nhw gan Darren cyn gynted â phosibl, y diwrnod wedyn yn aml iawn.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=919&LLL=1>